



Archwilio byd cadwraeth ystlumod trwy'r cwricwlwm cenedlaethol

Nodiadau i Athrawon

2. YSTLUMOD PRYDAIN – Y GWAHANOL RYWOGAETHAU

Meysydd dysgu a phrofiad perthnasol:

Gwyddoniaeth a thechnoleg, Mathemateg a rhifedd, Dyniaethau -daearyddiaeth

Mae'r tabl ar y Ffeithlen Ystlumod Prydain yn rhestru'r rhywogaethau sy'n byw yn y Deyrnas Unedig, ac yn crynhoi gwybodaeth am bob un ohonynt. Mae rhagor o wybodaeth am ystlumod y Deyrnas Unedig ar gael ar sawl gwefan, gan gynnwys www.bats.org.uk

Nodweddion adnabod:

Y Pen

Mae siâp am maint y clustiau, siâp y **tragus** (y strwythur y tu mewn i'r 'pinna' neu ran allanol y glust), siâp yr wyneb, faint o flew sydd ar yr wyneb – mae'r rhain i gyd yn ein helpu i wybod pa ystlum yw p'un.

Y Gynffon

Mae cynffon gan bob ystlum sy'n byw ym Mhrydain, ond mae rhai yn hwy na'i gilydd; dim ond un sydd â rhan fach o'r gynffon nad yw'n rhan o bilen y gynffon. Mae sbardun cartilag o'r pigwrn, y **calcar**, yn helpu i gynnal pilen y gynffon. Gall y siâp hwnnw ein helpu i adnabod yr ystlum.

Mesuriadau

Un o'r pethau mwyaf rhyfeddol am ystlumod yw eu maint. Mae llawer o bobl yn meddwl eu bod yn anferth, ond mae'r gwir am rywogaethau ystlumod y Deyrnas Unedig yn wahanol iawn. Mae ystlumod y Deyrnas Unedig yn fach o'u cymharu â'r rhan fwyaf o famaliaid – mae eu hadenydd yn gwneud iddyn nhw edrych yn fwy nag ydyn nhw mewn gwirionedd. Sut mae mesur ystlum?

Lled adenydd, neu'r pellter o flaen un aden i flaen yr aden arall, sy'n rhoi'r argraff orau o faint, ond mae'r union fesuriad yn dibynnu i ba raddau mae'r adenydd wedi ymestyn.

Pwysau. Gall cymharu pwysau ystlumod fod yn anodd hefyd. Bydd pwysau ystlum ar ôl pryd da o fwyd yn llawer mwy nag ar ôl gaeafgysgu.

Hyd rhan flaen y fraich, y pellter rhwng y penelin a'r arddwrn, yw'r dull mwyaf cywir o fesur a chymharu maint ystlumod

- Torrwch allan siapau maint go iawn o'r gwahanol ystlumod i'w cymharu. Mesurwch ac amcangyfrifwch arwynebedd yr adenydd. Cyfrifwch gymhareb yr aden; - i wneud hynny, rhannwch lled yr adenydd² gan arwynebedd yr adenydd (b^2/s). Dyma'r gymhareb agwedd, ac mae'n ffordd fathemategol o ddisgrifio cymhareb yr aden. Mae cymhareb agwedd uchel gan adenydd hir, cul, tra bod cymhareb agwedd isel gan adenydd byr, llydan.

- Dysgwch beth yw maint ystlumod eraill, yn y Deyrnas Unedig a thramor. Lluniwch siapau maint go iawn wedi'u torri allan o wahanol rywogaethau o ystlumod. Lluniwch graffiau a siartiau bar i ddangos maint/pwysau cymharol rhan flaen y fraich. Cymharwch â mamaliaid eraill.

Ble maen nhw'n bwydo ac yn clwydo?

- O'r tabl, edrychwch ar fapiau lleol a'r ardal o amgylch i ragfynegi ble mae
- yr ystlum lleiaf/yr ystlum hirglust/yr ystlum pedol lleiaf/ystlum y dŵr yn fwyaf tebygol o gael hyd i'w hoff fwyd?
- Ble mae'r ystlum lleiaf/yr ystlum hirglust/yr ystlum mawr yn debygol o gael hyd i fannau diogel i glwydo yn yr haf?
- Allwch chi awgrymu mannau addas ar y map lle gallai ystlumod *Myotis aefgysgu*?
- O'r tabl, edrychwch ar fapiau lleol a'r ardal o amgylch i ragfynegi ble gallai rhywogaethau eraill fwydo a chlwydo.
- Trafodwch sut mae dosbarthiad ystlumod yn amrywio'n ddaearyddol, ac yn ymwneud â gwahanol gynefinoedd a newidiadau hinsawdd.
- Darganfyddwch beth yw maint poblogaeth prif ddinasoedd a threfi Cymru. Cymharwch y rhain a'u cyferbynnu â'r amcangyfrifon o niferoedd ystlumod o rywogaeth benodol. Petaech chi'n cymryd tref gymaradwy a'i phoblogaeth, a bod hynny'n cynrychioli poblogaeth Cymru, pa mor debygol fyddai hi bod unrhyw 2 berson penodol yn cwrdd â'i gilydd, dybiwch chi?

Ystlumod yng Nghymru

Mae Cymru'n ardal bwysig i'r ystlum pedol. Mae'r ddwy rywogaeth yn bwysig mewn cyd-destun Ewropeaidd. Yr ystlum pedol lleiaf yw'r trydydd ystlum mwyaf cyffredin yng Nghymru, ac mae i'w ganfod ar draws llawer o'r ardaloedd iseldir. Mae poblogaeth sylweddol ar benrhyn Gŵyr, a chredir bod y boblogaeth honno'n wahanol o ran geneteg i'r rhai a geir yng ngweddill Cymru. Mae'r ystlum pedol mwyaf, ar y llaw arall, wedi'i gyfyngu i rannau o dde Cymru, gyda'r brif boblogaeth yn Sir Benfro, a safleoedd bridio eraill yn ardal Caerdydd a Sir Fynwy.

Statws ystlumod yng Nghymru

Mae'r tabl hwn yn rhoi syniad o'r ystlumod sydd yng Nghymru, eu niferoedd a'u dosbarthiad.

Enw Cymraeg	Enw gwyddonol	Statws	Amcan o'r niferoedd a gymerwyd o 3ydd adroddiad Cydbwylgor Cadwraeth Natur 2016 i'r Undeb Ewropeaidd ar yr asesiad o statws cadwraeth
ystlum lleiaf cyffredin	<i>Pipistrellus pipistrellus</i>	Y ddau ystlum mwyaf cyffredin sydd i'w canfod yng Nghymru. Yn ddibynnol iawn ar adeiladau.	Amcangyfrif o 128,000
ystlum lleiaf meinlais	<i>Pipistrellus pygmaeus</i>	Dyma'r ystlumod mae'r rhan fwyaf o bobl yn eu gweld, gan eu bod yn dod i'r golwg wrth i'r haul fachlud.	Amcangyfrif o 72,000
ystlum bach Nathusius	<i>Pipistrellus nathusii</i>	Anhysbys ond mae ambell gofnod. Mae'n cael ei gofnodi'n amlach.	Anhysbys

Nodiadau i Athrawon **2. YSTLUMOD PRYDAIN – Y GWAHANOL RYWOGAETHAU**

ystlum hirglust	<i>Plecotus auritus</i>	Yn aml yn gysylltiedig â hen eglwysi, ysguboriau a thai â thoeon mawr.	Amcangyfrif o 17,500
ystlum hirglust llwyd	<i>Plecotus austriacus</i>	Ddim yn bresennol yng Nghymru.	Ddim yn bresennol
ystlum mawr	<i>Nyctalus noctula</i>	I'w ganfod ledled Cymru. Yn clwydo'n bennaf mewn tyllau coed. Eitha cyffredin.	Amcangyfrif o 4,750
ystlum adain-lydan	<i>Eptesicus serotinus</i>	Anhysbys, a dim ond am lond dwrn o safleoedd mamolaeth yr ydym ni'n gwybod.	Anhysbys
ystlum Leisler	<i>Nyctalus leisleri</i>	Anghyffredin a heb ei gofnodi'n aml.	Anhysbys
ystlum barfog	<i>Myotis mystacinus</i>	Grŵp â chysylltiad agos yw hwn, ac mae i'w ganfod ledled Cymru. Fwy na thebyg yn gyffredin yn lleol. Mae ystlum Alcathoe heb ei gadarnhau yng Nghymru eto.	Amcangyfrif o 8,000
ystlum Brandt	<i>Myotis brandtii</i>		Amcangyfrif o 7,000
ystlum Alcathoe	<i>Myotis alcathoe</i>		Heb gofnodi eto
ystlum y dŵr	<i>Myotis daubentonii</i>		Amcangyfrif o 15,000
ystlum Natterer	<i>Myotis nattereri</i>		Amcangyfrif o 12,500
ystlum Bechstein	<i>Myotis bechsteinii</i>	Dim ond tri chofnod, er bod yr ystlum hwn wedi'i gofnodi ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr yng Nghasgwent.	Anhysbys
ystlum pedol mwyaf	<i>Rhinolophus ferrumequinum</i>	O dan fygythiad difrifol, gyda phoblogaethau o bwysigrwydd cenedlaethol yng Nghymru, yn arbennig yn Sir Benfro a Gwent.	Amcangyfrif o 2,220 o gyfrifiadau clwydo cywir yn yr haf
ystlum pedol lleiaf	<i>Rhinolophus hipposideros</i>	O dan fygythiad difrifol, gyda phoblogaethau o bwysigrwydd cenedlaethol ar iseldir Cymru.	Amcangyfrif o 26,600 o gyfrifiadau clwydo cywir yn yr haf
ystlum barbastelle	<i>Barbastellus barbastellus</i>	Rhywogaeth prin iawn, heb ond ambell gofnod yng Nghymru.	Amcangyfrif o 500